


# COVID-19 ADRODDIAD GWARIANT 2020

Cardiff & Vale
HealthCharity
Elusenlechyd
Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU
NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at rai o'r enghreifftiau y mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi gwario'r arian a dderbyniwyd drwy gyfrwng y gefnogaeth a gawsom rhwng Ebrill 2020 ac Ionawr 2021, i gefnogi staff y GIG, cleifion a gwirfoddolwyr y mae COVID-19 wedi effeithio arnynt. Os hoffech ddarllen ein Hadroddiad Codi Arian, sy'n cyfeirio at rywfaint o'r gweithgarwch codi arian a'r gefnogaeth a gafodd Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn ystod y pandemig, ewch i: https://healthcharity.wales/covid-19-fundraising-support-2020/

O ganlyniad i nifer uchel y ceisiadau codi arian gan aelodau o staff ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'r adroddiad hwn ond yn rhoi cipolwg amserol o'r ffyrdd niferus ac amrywiol rydym wedi gwario arian a gafwyd drwy roddion hael gan fusnesau, sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi cyfle arall i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddweud diolch enfawr i'r bobl arbennig wnaeth ddarparu rhoddion hael a chodi arian er mwyn cefnogi cleifion a staff yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn. Drwy'r gefnogaeth hon, codwyd £750,470 ar gyfer Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Gwnaethom dderbyn rhoddion caredig hefyd gan NHS Charities Together, sef yr elusen gyffredinol sy'n cynrychioli, cefnogi ac yn hyrwyddo pob un o elusennau unigol y GIG yn y DU. Codwyd swm anhygoel o £150 miliwn ar gyfer NHS Charities Together yn 2020 ac mae wrthi'n cael ei ddosbarthu i'r 220 o elusennau unigol y GIG mewn ffyrdd amrywiol.
Hyd yma, mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi derbyn £299,737 gan NHS Charities Together i gefnogi staff, cleifion a gwirfoddolwyr.

Mae cyfran o'r arian wedi'i ddarparu'n benodol i helpu'r rhai y mae COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur arnynt. Gwneir cais am arian pellach gan NHS Charities Together i gefnogi prosiectau niferus ar draws y Bwrdd Iechyd i helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau'r GIG ac i helpu gydag adferiad y GIG yn yr hirdymor.

Unwaith eto, rydym yn hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth y mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi'i derbyn a byddwn yn parhau i wneud popeth a allwn i godi mwy o arian er budd pawb ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Diolch.

# Er budd y cleifion

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae'r arian wedi cael ei wario er budd cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Gwelliannau Clinigol a Digidol

Darparwyd nifer o welliannau digidol i wasanaethau parhaus o ganlyniad i gyllid diweddar. Roedd y rhain yn cynnwys deunyddiau fideo amrywiol a gwelliannau technolegol megis system arddweud digidol yn Ysbyty Plant Cymru. Bydd y gwelliannau hyn o fudd i lesiant cleifion a staff a byddant hefyd yn gwella hyfforddiant i staff ac yn moderneiddio gwasanaethau.

Darparwyd darnau amrywiol o offer meddygol hefyd i wella gofal cleifion yn ystod y pandemig megis camerâu gwrth-ddŵr ar gyfer llawdriniaeth ac offer profi ar gyfer asthma

## Hysbysfwrdd y Tu Allan i Ganolfan Feddygol yr Eglwys Newydd

O ganlyniad i gyfyngiadau yn sgil COVID-19, nid oedd yn bosibl i gleifion Canolfan Feddygol yr Eglwys Newydd ddefnyddio ystafell aros y ganolfan i eistedd ac aros am eu hapwyntiadau. Rhoddwyd arian i'r ganolfan brynu a darparu hysbysfwrdd cloadwy y tu allan a allai gael ei ddefnyddio i arddangos gwybodaeth a diweddariadau pwysig a fyddai fel arfer i'w gweld yn yr ystafell aros. Mae'r hysbysfwrdd hwn wedi cynnig ffordd arall o arddangos gwybodaeth yn ogystal â rhannu gwybodaeth ar eu gwefan.

## Gwaith Adnewyddu Ystafelloedd Gwasanaeth Therapi Cynnwys a Phecynnau Ymwybyddiaeth Ofalgar

Derbyniodd Gwasanaeth Therapi Cynnwys yn Ysbyty'r Eglwys Newydd arian i adnewyddu a gwella eu dwy ystafell therapi. Mae'r gwasanaeth yn darparu therapi siarad dwys i unigolion gofidus iawn sy'n aml wedi profi trawma. Bydd darparu amgylchedd modern, croesawgar a chyfforddus i'w cleientiaid ei ddefnyddio yn ystod eu sesiynau yn helpu i wella'r ymgysylltu rhwng cleifion a staff a gwella'u lles hefyd. Darparwyd pecynnau ymwybyddiaeth ofalgar hefyd i'r gwasanaeth eu defnyddio, gan wella creadigrwydd a lles meddwl staff a chleifion.



# DVD's Elderfit Fitness a Gentle Movement

Darparwyd DVD's Elderfit Fitness a Gentle Movement i Dîm Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i helpu gydag ymddygiad llonydd ac i gynnal y lefel uchaf posibl o gryfder a chydbwysedd ymhlith cleifion dros 50 oed.



# Amgylcheddau Ysbyty Gwell

Defnyddiwyd rhoddion i wella llawer o amgylcheddau mewn ardaloedd clinigol ac anghlinigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, gan eu gwella a'u gwneud hyd yn oed yn fwy diogel ar gyfer staff a chleifion. Mae'r gwelliannau hyn wedi cynnwys gosod llawr newydd yn ardal cyntedd Ysbyty Athrofaol Cymru.

# Dodrefn gardd ar gyfer Ward Elizabeth

Darparwyd dodrefn gardd ar gyfer Ward Elizabeth yn Ysbyty Dewi Sant i'w ddefnyddio yng ngardd y ward. Bydd cael y cyfle i ddefnyddio'r eitemau hyn sy'n cynnwys bwrdd, cadeiriau, parasol a sied offer yn gwella lles cleifion y ward yn sylweddol. Drwy gael mynediad i'r ardd, bydd yn gwella'r ymgysylltiad rhwng y cleifion ynghyd â'u boddhad.

# Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Hafan y Coed

Darparwyd eitemau therapiwtig a gwnaed gwaith adnewyddu a oedd yn cynnwys gosod campfeydd yn y wardiau ac ystafell fideo-gynadledda yn Hafan y Coed yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, er mwyn helpu i wella gofal cleifion a darparu arferion mwy effeithlon a diogel yn y gweithle. Bydd gosod y campfeydd hyn yn y wardiau yn helpu i wella dulliau adsefydlu a rheoli yn y tymor hir ar gyfer cleifion sy'n oedolion sydd â chyflyrau niwrolegol yn ogystal â gwella'r ymgysylltu â staff.

# iPads a Llechi Cyfathrebu Electronig

Mae Llechi Cyfathrebu Electronig y gofynnwyd amdanynt gan Dîm Profiad y Claf wedi cael eu darparu i adrannau i wella'r cyfathrebu rhwng cleifion a'u teuluoedd yn ystod amgylchiadau anodd y pandemig, yn ogystal â nifer o iPads i'w defnyddio ar gyfer holiaduron gwirfoddolwyr. Gofynnwyd am iPads hefyd gan adrannau eraill fel y ward Ôl-enedigol Mamolaeth.

## Gofal Lliniarol

Cafodd llawer o eitemau yn cynnwys cadeiriau gogwyddo a gwelyau Z i gleifion, peiriannau TENS, padiau gwres a dyfeisiau clywed ECHO Minitech Pro eu darparu i'r tîm Gofal Lliniarol. Defnyddir yr eitemau hyn i gynorthwyo'r staff ac i wella'r gwasanaethau maent yn eu darparu i gefnogi eu cleifion, gan wella dulliau cyfathrebu â chleifion, dulliau rheoli poen a gofal o ganlyniad.

## Yr Adran Famolaeth

Rhoddwyd sawl eitem i'r Adran Famolaeth i wella'r gwasanaethau maent yn eu darparu i gefnogi eu cleifion. Ymhlith yr eitemau roedd iPads a'r ategolion a'r cymorth TG gofynnol, goleuadau awyrgylch ar gyfer yr Uned Famolaeth a chymorth cynadledda rhithwir.

Darparwyd dwy System Geni Multitrac a pum cadair geni hefyd i gefnogi ac annog menywod i fod mewn safle unionsyth, symudol wrth roi genedigaeth. Mae'r buddsoddiad wedi helpu menywod sy'n cael cymorth mamolaeth yn yr adran yn ogystal â helpu i roi hwb i forâl staff a lles o fewn y gweithle.



## Eitemau Therapi

Cafodd eitemau therapi amrywiol, sy'n amrywio o offer garddio ac ymarfer corff i weithgareddau celf a chrefft eu darparu i adrannau ar draws y BIP. Mae'r eitemau hyn sy'n helpu gyda thriniaeth ac adferiad cleifion mewn nifer o leoliadau gwahanol yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella iechyd corfforol, iechyd meddwl a lles cleifion.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn

Darparwyd seinydd a system gerddoriaeth gyffredinol ar gyfer CD, casét finyl, USB a radio i'r Adran Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn i'w defnyddio fel rhan o'u therapi hel atgofion 1:1. O ganlyniad i bolisi dim ymwelwyr BIP yn sgil COVID-19, roedd y seinyddion hefyd yn ddefnyddiol i wella profiad y galwadau fideo ar gyfer cleifion oedd yn cysylltu â'u teuluoedd, gan wella ymhellach eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain.



# Blychau Dathlu Diwrnod VE

Cafodd blychau i ddathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop eu darparu ar gais i ysbytai a gwasanaethau cymunedol sy’n gofalu am bobl hŷn i helpu i wella a chynnal lles y cleifion yn yr adrannau hyn mewn modd cadarnhaol.




# Dillad Cleifion ac Eitemau Gweithgaredd

Rhoddwyd cyllid i Dîm Profiad y Claf i brynu a darparu eitemau fel cynhyrchion ymolchi, dillad nos ac ati i gleifion, er mwyn rhoi gwên ar eu hwynebau yn ystod y pandemig. Darparwyd offer i gludo’r eitemau hyn hefyd ynghyd ag eitemau gweithgaredd eraill fel papurau newydd, peli straen a deunyddiau gweithgaredd awyr agored. Mae adrannau fel Ysbyty Dydd John Pathy wedi elwa’n fawr ar hyn ac maent wedi gweld gwelliannau yn y dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â chleifion o ganlyniad.

# Gorsafoedd Dŵr

Mae llawer o orsafoedd dŵr sy’n caniatáu i staff a chleifion ail-lenwi eu poteli dŵr wedi’u gosod ar draws nifer o safleoedd y BIP gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ysbyty Dewi Sant, Ysbyty Rookwood ac Ysbyty Brenhinol Caerdydd.



# Er budd staff a gwirfoddolwyr

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae'r arian wedi cael ei wario er budd staff a gwirfoddolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Gwaith celf COVID-19

Cafodd sawl darn o waith celf yn arddangos ymroddiad, aberth a gwaith caled staff, a darnau ac eitemau teyrnged i staff a gollodd eu bywyd yn ystod y pandemig eu comisiynu, eu fframio a'u gosod yn y BIP. Darparwyd eitemau celf a chrefft hefyd i staff, cleifion a'r gymuned i helpu gyda digwyddiadau codi arian artistig megis y digwyddiad Bomio Edau ar gyfer Apêl Prop.

## Cleifion Allanol Diabetes - Cysgodfan Dros Dro ar gyfer Profi drwy Ffenest y Car

Darparwyd cyllid i osod cysgodfan dros dro er mwyn i aelodau staff yr adran Cleifion Allanol Diabetes sy'n cynnal profion pigiad bys ar gleifion drwy ffenest y car allu cyflawni eu dyletswyddau ym mhob tywydd.

## Hafanau Staff

Defnyddiwyd rhoddion i ddarparu nifer o eitemau i helpu i gynnal Hafanau Staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau. Ymhlith y rhain roedd blychau danteithion i staff, cynnyrch glanhau, chwistrellau ymlacio a blancedi meddal ar gyfer Ystafelloedd Ymlacio'r Enfys. Gwnaeth yr eitemau hyn nid yn unig alluogi'r Hafanau i gael eu cynnal yn fwy effeithlon ond gwnaethant hefyd wella'n sylweddol y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu i'n staff rheng flaen yn ystod y pandemig.

## CAV 24/7

Gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn lansio eu gwasanaeth newydd ffonio yn gyntaf, CAV 24/7, darparwyd poteli dŵr amldro i helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth newydd hwn.




## Animeiddiad Iechyd Plant a Hawliau Plant

Darparwyd cyllid i greu animeiddiad dwyieithog mewn partneriaeth â Promo Cymru i'w gynnwys mewn hyfforddiant Hawliau Plant ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Caiff yr animeiddiad ei greu gyda chymorth Bwrdd Ieuenctid y BIP a bydd yn cynnwys eu lleisiau i gyflwyno negeseuon allweddol i staff mewn ffordd ystyrlon ar ran plant a phobl ifanc, ac ymgyrch codi arian, sy'n cefnogi cleifion sydd wedi cael niwed i'r ymennydd yn Ysbyty Rookwood.


# Dyfeisiau Diogelu Gweithwyr Unigol Guardian 24

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi darparu cyllid i brynu Dyfeisiau Diogelu Gweithwyr Unigol Guardian 24 ychwanegol ar gyfer staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerydd a'r Fro sy'n dioddef cam-drin domestig a stelcio. Mae'r dyfeisiau yn rhoi dull syml ac effeithiol i unigolion sy'n agored i niwed i alw am gymorth mewn argyfwng, gan ddarparu ymateb 24 awr o Ganolfan Rheoli Digwyddiadau â gweithwyr, sydd wedi'i lleoli yn y DU, a fydd yn ymateb ar unwaith i unrhyw alwadau brys.

## Gwaith Adnewyddu ac Adnoddau i Ardaloedd Staff

Mae llu o roddion hael wedi galluogi nifer o ardaloedd staff i gael eu hadnewyddu a'u diweddaru gyda dodrefn ac offer cegin newydd a gwell. Cafodd hyn, ynghyd ag adnoddau eraill a ddarparwyd, effaith gadarnhaol iawn ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl staff ac o ganlyniad, bydd yn helpu i wella gofal cleifion.

Ymhlith yr adrannau sydd wedi gwneud cais am y gwaith adnewyddu a gosod mae'r Uned Sterileiddio a Diheintio Deintyddol, Gwasanaeth Adsefydlu ac Adfer Cymunedol Phoenix, y Gwasanaeth Maetheg a Deieteg Cymunedol, Adrannau Therapi Galwedigaethol Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Dewi Sant ac Uned Fferyllol y Santes Fair a'r Adran Peirianneg Glinigol. Darparwyd cyfarpar hefyd i Dîm Nyrsys Ardal Radyr, y Gwasanaeth Dementia Cynnar, Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Pentywyn, yr Adran Maetheg a Deieteg yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau a'r Tîm Lleferydd ac Iaith Plant.



# Gwasanaeth Gyrru Drwodd ar gyfer yr Adran Gweithrediad yr Ysgyfaint a Chwsg Ataliol

Mae'r gwasanaeth cwsg wedi newid i wasanaeth gyrru drwodd lle mae cleifion yn casglu eu cyfarpar astudiaeth cwsg o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. I helpu i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth a gwella lles staff, cafodd llawer o eitemau fel arwyddion, trolïau, cadeiriau a chotiau glaw eu darparu, gan wella'r gwasanaeth ynghyd â morâl staff.

# Adnoddau ar gyfer Ymchwil COVID-19

Roedd Adran Niwroleg Ysbyty Athrofaol Cymru yn ymchwilio i nifer y cleifion COVID serobositif mewn carfan o 1000 o bobl yng Nghaerdydd â sglerosis ymledol (MS), i lywio gofal cleifion yn ystod y pandemig presennol a phandemigau yn y dyfodol. Rhoddwyd arian i brynu a darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn i'r adran gynnal yr ymchwil trwy ddefnyddio profion smotyn gwaed o bell.

# Gosod Ystafell Staff ar gyfer Tîm Ardal De a Dwyrain Caerdydd

Yn 2020, symudodd Tîm Ardal De a Dwyrain Caerdydd i'w swyddfeydd newydd yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd a rhoddwyd cyllid iddynt osod ystafell staff yn eu hadran. Darparwyd eitemau fel microdon, oergell, bwrdd, cadeiriau, gwyntyllau, hysbysfyrddau a gwaith celf a fydd yn helpu i wella'r amgylchedd a morâl staff yn sylweddol.

# Lles Staff

Mae'n holl bwysig gofalu am eich iechyd meddwl. I helpu i ofalu am staff y BIP yn ystod y pandemig, darparwyd nifer o eitemau i wella a chynnal eu lles corfforol a meddyliol. Ymhlith y rhain roedd Canllaw a Phosteri Adnoddau Lles Rhyngweithiol, pecynnau cychwynnol Active Minds, llyfrau gwaith i gleifion, pecynnau ymwybyddiaeth ofalgar, taflen 12 tudalen 'Byw a gweithio ar eich pen eich hun', prosiect 'Ysgrifennu yn ystod y cyfnod clo' a llawer o flychau danteithion i staff. Darparwyd diodydd a lolipops iâ hefyd i'n staff rheng flaen a oedd yn gweithio mewn PPE yn ystod gwres eithafol uchafbwynt y pandemig.

# Cymorth i'r Digwyddiad Dathlu Sêr Llawfeddygol

Mae'r Bwrdd Clinigol Llawfeddygol wedi trefnu'r Digwyddiad Dathlu Sêr Llawfeddygol i gydnabod eu staff arbennig drwy'r flwyddyn. Cafodd cyllid ei gymeradwyo i ddarparu gwobrau a lluniaeth ar gyfer y digwyddiad a fydd yn helpu i wella morâl a lles meddwl staff.

# Ysbyty Calon Y Ddraig

O ganlyniad i faint y Stadiwm Principality, darparwyd sgwteri trydan i staff a oedd yn gweithio yn Ysbyty Calon y Ddraig er mwyn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau gweithredol. I hyrwyddo gwaith yr ysbyty ac ymateb COVID-19 y BIP, darparwyd 2000 o boteli dŵr amldro a bathodynnau pin yn dangos logo Ysbyty Calon y Ddraig ynghyd â laniardiau enfys Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ar gyfer aelodau staff. Prynwyd setiau radio hefyd i'w gosod wrth ymyl gwelyau'r cleifion yn yr ysbyty.

GIG CYMRU NHS WALES | Ysbyty Calon Y Ddraig | Dragon's Heart Hospital

# Prosiect Gardd Meithrinfa Teddy Bear

Mae Meithrinfa Teddy Bear wedi darparu gofal plant brys i staff yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn. Rhoddwyd cyllid i feithrinfa Ysbyty Athrofaol Llandochau osod to ar eu hardal decin awyr agored, er mwyn darparu system awyru a chyfle i'w defnyddio ym mhob tywydd. Mae hyn wedi golygu bod modd defnyddio'r ardal i sicrhau bod canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cynnal, gan ddarparu ardal hamdden arall i'r plant hefyd.

# Hyfforddiant ar gyfer Staff Obstetreg a Gynecoleg

Y 'safon aur' ar gyfer gynecoleg weithredol yw laparosgopi, sy'n hyrwyddo gofal iechyd darbodus a darparu'r canlyniadau gorau i gleifion. Mae angen hyfforddiant dwys er mwyn datblygu sgiliau laparosgopi, yn ogystal â gwelliant o ran perfformiad llawfeddygol sy'n deillio o ymarfer rheolaidd.

Cydnabyddir bod efelychu gan ddefnyddio technoleg ochr yn ochr â hyfforddiant ymarferol yn ffyrdd o wella sgiliau llawfeddygol. Rhoddwyd arian er mwyn gallu cynnig rhaglen hyfforddi sy'n mynd i'r afael â'r diffygion a achosir gan COVID-19 a lleihau tarfu ar yr hyfforddiant a'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer cleifion y dyfodol.

# Eitemau Hyrwyddo ar gyfer Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd

Gwnaeth y Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion drefnu digwyddiadau i ddathlu Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd 2020. Cynhaliwyd y digwyddiadau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd, gwella dealltwriaeth fyd-eang ac annog cydweithredu byd-eang i hyrwyddo diogelwch cleifion. Er mwyn hyrwyddo a hysbysebu'r digwyddiadau ymhellach, darparwyd cyllid ar gyfer 500 o bennau ysgrifennu a 250 o gylchoedd allweddi.

# Ein Partneriaethau Cymunedol

## Y Trydydd Sector

Mae'r enghreifftiau isod yn nodi sut mae arian wedi cael ei wario i gefnogi sefydliadau lleol y trydydd sector yn ystod y pandemig. Gan weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwirfoddol Morgannwg, mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cefnogi ystod o sefydliadau'r trydydd sector er mwyn gwneud gwahaniaeth mawr o fewn cymunedau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

### Age Connects

Rhoddwyd arian i Age Connects Caerdydd a'r Fro i brynu iPads ar gyfer Staff Rhyddhau o'r Ysbyty ac Eiriolaeth. Bydd hyn yn caniatáu i'r staff gefnogi pobl hŷn a'u teuluoedd gyda chynlluniau rhyddhau ac yn golygu y gall defnyddwyr gwasanaethau gael eu cynnwys yn fwy yn y gwaith cynllunio.

### Elderfit

Rhoddwyd cyllid i Elderfit (Caerdydd a Bro Morgannwg) ar gyfer costau staff i greu dosbarthiadau ymarfer corff sain fel y gallai defnyddwyr y gwasanaeth wneud ymarfer corff yn eu cartrefi. Bydd hyn yn helpu'r sawl sydd â nam ar y golwg ac yn darparu cymorth wedi'i deilwra'n arbennig.

### Forget Me Not Chorus

Darparwyd cyllid i'r Forget Me Not Chorus (Caerdydd a Bro Morgannwg) i gynnal cyngherddau awyr agored yn Ysbyty Llandochau, Ysbyty Dewi Sant a chyfres o sesiynau rhagflas ar Zoom ar gyfer pobl â dementia, yn ogystal â chostau Rheolwr Prosiect a gwerthuso.

### Huggard

Dyfarnwyd cyllid i Huggard (Caerdydd) i brynu cyfarpar ar gyfer Hwb Datblygu TG. Bydd yr Hwb hwn yn helpu pobl ddigartref i gael mynediad at wasanaethau TG ar adeg pan mae cymaint o wasanaethau yn cael eu darparu'n ddigidol yn ystod y pandemig COVID-19.

### Headway

Derbyniodd Headway (Caerdydd a Bro Morgannwg) gyllid ar gyfer costau staff a gwirfoddolwyr. Defnyddir y cyllid hefyd i brynu PPE, ffôn symudol a chontract misol. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi prosiect peilot ar gyfer grŵp cerdded/cadeiriau olwyn i'r rhai sydd ag anafiadau i'r ymennydd ym Mro Morgannwg.

### Cymdeithas MS

Derbyniodd y Gymdeithas MS (Caerdydd a Bro Morgannwg) gyllid ar gyfer costau staff i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu iechyd/lles. Bydd y prosiect hwn yn darparu cyrsiau ar-lein i baratoi defnyddwyr gwasanaethau i ddechrau gwneud ymarfer corff ar ôl y cyfnod clo. Yn ogystal, bydd y prosiect yn cynnal sesiynau ymgysylltu iechyd/lles amrywiol i helpu defnyddwyr gwasanaethau sy'n profi gorbryder, drwy gynnig cymorth wyneb yn wyneb. Bydd yn caniatáu iddynt ehangu i Fro Morgannwg.

### With Music in Mind

Rhoddwyd cyllid i With Music in Mind (Bro Morgannwg) ar gyfer costau staffio, pecynnau ailgyfeirio ac eitemau PPE. Bydd yr offer PPE a'r pecynnau ailgyfeirio yn galluogi'r sefydliad i baratoi ei staff a defnyddwyr y gwasanaeth i ddychwelyd yn ddiogel i wasanaethau rheolaidd.

# Er budd y Gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae cyllid wedi'i wario er budd cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn lleoliadau clinigol a'r gymuned leol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Darparwyd cymorth hefyd ar gyfer prosiectau BAME i sefydliadau'r trydydd sector fel Cymorth i Fenywod Caerdydd, Innovate Trust, Jukebox Collective a'r Gymdeithas Integreiddio Sudaneaidd.

## Gwaith Celf Mae Bywydau Du o Bwys

Gwnaeth cyllid alluogi llawer o brosiectau celf yn ymwneud â'r ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys i gael eu comisiynu. Bydd y prosiectau'n defnyddio artistiaid o'r gymuned BAME (Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) i gomisiynu a dylanwadu ar y gwaith yn unol ag agenda cynhwysiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## Cymorth i Fenywod Caerdydd

Dyfarnwyd cyllid i sefydliad Cymorth i Fenywod Caerdydd (Caerdydd a Bro Morgannwg) ar gyfer costau datblygu safle WordPress, costau ymgynghorwyr a thanysgrifiad i SurveyMonkey. Bydd hyn yn cefnogi nodau Cymorth i Fenywod Caerdydd ac yn darparu hyfforddiant, addysg a chymorth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a fyddai'n cynnwys pobl o grwpiau a dangynrychiolir.

## Jukebox Collective

Derbyniodd Jukebox Collective (Caerdydd) gyllid ar gyfer costau lleoliadau, treuliau teithio a PPE. Bydd y prosiect yn galluogi pobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i feithrin sgiliau a chreu lle i fynegi eu hunain. Yn ogystal, bydd y prosiect yn archwilio diwylliannau gwahanol.

## Innovate Trust

Dyfarnwyd cyllid i Innovate Trust (Caerdydd a Bro Morgannwg) i brynu llechi electronig i alluogi defnyddwyr y gwasanaeth i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae hyn wedi bod yn fuddiol iawn yn ystod y pandemig COVID-19, gan ehangu cyrhaeddiad y gwasanaeth a sicrhau bod canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn.

## Practis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd

Derbyniodd Practis Mynediad i Ofal Iechyd Caerdydd (CHAPS) gyllid i helpu i gefnogi Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) oedd yn cofrestru â Gwasanaeth Ceiswyr Lloches Caerdydd a'r Fro ynghyd â staff y BIP a'r trydydd sector, megis Wellbeing 4U sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Bydd y gefnogaeth o fudd mawr i'r staff a'r cleifion yn y gwasanaeth ac yn arwain at ofal gwell i gleifion ynghyd ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles gwell.

## Y Gymdeithas Integreiddio Sudaneaidd

Rhoddwyd cyllid i'r Gymdeithas Integreiddio Sudaneaidd (Caerdydd) i brynu offer TG a chefnogi treuliau gwirfoddolwyr, costau cyfieithu a chostau hwyluswyr. Byddai'r prosiect yn benthyca offer TG i gefnogi teuluoedd, gan gynnig cymorth/gwybodaeth arbenigol ynghylch COVID-19 i deuluoedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd o dan anfantais.

## Cyfarpar Mamolaeth ar gyfer Ceiswyr Lloches

Rhoddwyd cyfarpar fel pympiau i'r fron, gobenyddion beichiogrwydd a dillad isaf cynhaliol i'w gwisgo yn ystod beichiogrwydd i fydwragedd ceiswyr lloches arbenigol, i'w rhoi i fenywod sy'n rhan o'r broses ceisio lloches, oherwydd na allant gael gafael ar y rhain eu hunain. Mae'r cyfarpar hwn yn hynod fuddiol i'r menywod hyn oherwydd eu bod yn rhoi cysur a chymorth sydd wir eu hangen ac felly'n eu helpu i wella eu hiechyd meddwl a'u lles yn ystod eu beichiogrwydd.

# Cronfa Gareth Bale

Mae'r enghreifftiau isod yn nodi sut mae'r arian a gafwyd gan y chwaraewr pêl-droed enwog dros Gymru a Tottenham Hotspur, Gareth Bale a'i wraig Emma wedi'i wario'n benodol i gefnogi adferiad o COVID-19 ac er budd safle Ysbyty Athrofaol Cymru.

## Adsefydlu ar ôl COVID Hir: Cadw Fi'n Iach ac Adferiad

Darparwyd cyllid i gefnogi prosiect arloesol i helpu i ddatblygu'r adnodd digidol rhyngweithiol a'r ymgyrch 'Cadw Fi'n Iach' er budd cleifion a staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd y platfform digidol yn adnodd hanfodol y gellir cyfeirio cleifion ato, drwy fynychu clinig adsefydlu COVID Hir amlddisgyblaethol sy'n cael ei sefydlu gan y Bwrdd Iechyd i gefnogi pobl sy'n profi symptomau syndrom ôl-COVID neu COVID Hir yn yr wythnosau a'r misoedd ar ôl cael COVID-19. Gan fod llawer o'n cleifion yn methu ag ymweld ag amgylcheddau'r BIP neu'n teimlo'n ofidus am fynd i leoliad ysbyty, bydd hyn yn eu galluogi i fanteisio ar addysg, ymarfer corff, triniaeth a/neu gymorth seicolegol o bell.

## Cymorth Lles Rhagweithiol i Staff a Rheolwyr

Darparwyd cyllid i ddechrau prosiect, a anelwyd at ymgorffori lles drwy gydol llwybr gyrfa staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda buddion parhaus. Gan ddefnyddio model y Gymdeithas Meddygaeth Alwedigaethol i ddatblygu adnoddau a mentrau lles, bydd yn darparu dull ataliol a rhagweithiol o roi sylw i les ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. Mae'r prosiect yn cefnogi staff a rheolwyr i ail-feithrin eu gwytnwch seicolegol yn y gweithle, nid yn unig yn ystod yr amgylchedd COVID-19 presennol ond hefyd yn ystod gweddill eu gyrfa gyda'r GIG.

## Darparu Hafan i Staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae'n holl bwysig, yn ystod y pandemig COVID-19 presennol ac yn ystod cyfnodau heriol eraill, bod gan ein staff ardal i gymryd seibiant er mwyn ymlacio a gorffwys. Cafodd yr Hafan i Staff ei chreu yn ystod cyfnod ymateb cychwynnol y BIP ac roedd ar gael yn ystod cyfnodau Gwytnwch ac Adferiad y pandemig a bydd yn dod yn gyfleuster parhaus. Bydd yr Hafan benodedig hon i Staff yn hyblyg i ddiwallu anghenion newidiol staff.

Os hoffech fwy o wybodaeth am sut allwch helpu i ledaenu ychydig o gariad a helpu'n timau rheng flaen yn y GIG drwy'r pandemig hwn ewch i wefan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro <https://healthcharity.wales/how-to-help-during-covid-19/>, cysylltwch â ni drwy e-bost; Fundraising.cav@wales.nhs.uk neu gwnewch rodd yma; https://www.justgiving.com/campaign/spreadthelove Mae staff rheng flaen y GIG yn mynd i'r gwaith er mwyn ein cadw ni a'n hanwyliaid yn ddiogel. Y peth mwyaf y gallwn ni ei wneud nawr yw dangos ein gwerthfawrogiad drwy ddilyn y canllawiau mwyaf diweddar a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.